# Amlddatrys ar gyfer Sero Net yng Nghymru Wledig

## Briff Polisi – Mawrth 2026



## CRYNODEB

Mae Cymru wedi ymrwymo i weithredu ar yr hinsawdd ar frys ac i lwybr sy'n ein rhwymo'n gyfreithiol i sero net erbyn 2050. Mae cymunedau gwledig yn awyddus i fod yn rhan o'r cynlluniau, ond mae gofyn iddynt gyfaddawdu'n aml – er enghraifft, gyda chostau, mynediad at wasanaethau, treftadaeth neu bwysau cysylltiedig â defnydd tir– a gall hyn leihau'r gefnogaeth a roddir i gamau er lles yr hinsawdd. Mae'r briff hwn yn cyflwyno ffordd ymarferol ymlaen: defnyddio camau 'amlddatrys' – sy'n lleihau'r allyriadau ac, ar yr un pryd, yn cyflawni buddion sy'n bwysig i bobl, megis biliau is, cartrefi iachach, gwell opsiynau trafnidiaeth, natur a diwylliant ffyniannus, ac economïau lleol cryfach. Mae amlddatrys yn gwella cefnogaeth y cyhoedd am ei fod yn ddull sy'n cysylltu gweithredu er lles yr hinsawdd gyda lles bob dydd.

Canfu ein hymchwil enghreifftiau gwirioneddol o amlddatrys ar draws Cymru wledig a thu hwnt a thynnu sylw at yr hyn sy'n eu helpu i lwyddo. Mae'r mewnwelediadau'n llywio argymhellion clir ar gyfer: i) camau gweithredu ar newid hinsawdd sy'n canolbwyntio ar y bobl, yn seiliedig ar leoedd ac yn gynhwysol; ii) sgiliau sefydliadol a galluedd ar gyfer amlddatrys; a iii) diwygiadau system ac ariannu ar gyfer newid integredig hirdymor. Y nod yw cefnogi ymarferwyr a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel - ar draws y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus a'r sector busnes - i weithredu nawr, gan ddefnyddio mesurau hinsawdd sy'n datrys heriau lleol eraill ar yr un pryd.

## CEFNDIR

### Amcanion Astudio

Aethom ati i ymchwilio i sut y gall camau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a symud tuag at sero net sicrhau manteision ehangach i gymunedau gwledig ar yr un pryd. Edrychwyd am enghreifftiau ymarferol lle caiff manteision amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eu cyflawni gyda'i gilydd – er enghraifft, inswleiddio cartrefi i leihau allyriadau a biliau; ehangu trafnidiaeth gymunedol i leihau'r defnydd o geir ac ynysu gwledig; neu adfer tirweddau sy'n storio carbon wrth gefnogi bioamrywiaeth, bywoliaethau lleol a rheoli llifogydd. Darperir manylion am yr enghreifftiau hyn yn nhabl 1 ac fe'u dangosir ar dudalen 1. Gan adeiladu ar yr enghreifftiau hyn, datblygwyd argymhellion i gynorthwyo sefydliadau i ddefnyddio amlddatrys fel offeryn i sicrhau pontio cyfiawn, cynhwysol.

### Cyd-destun Polisi:

Datganwyd argyfwng hinsawdd gan Gymru yn 2019[i] ac mae llwybr sy'n rhwymol yn gyfreithiol wedi ei osod at sero net erbyn 2050, gyda chefnogaeth cyllidebau carbon statudol yn unol â chyngor gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y Deyrnas Unedig[ii]. Mae'r ymrwymiadau hyn yn rhan o raglen lywodraethol ehangach[iii] sy'n ymgorffori gweithredu ar newid hinsawdd ar draws pob sector ac sy'n cael ei hatgyfnerthu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015). Mae'r ddeddf yn hyrwyddo penderfyniadau integredig, cydweithredol, hirdymor ac ataliol er mwyn cyflwyno canlyniadau lles eang. Ond yn ôl adroddiad Archwilio Cymru diweddar, [iv]gall cynnydd fod yn anodd yn ymarferol, oherwydd cylchoedd cyllido tymor byr, adrodd ynysig, data tameidiog a gallu amrywiol. Mae ardaloedd gwledig hefyd yn wynebu cyfaddawdau penodol, a all erydu ewyllys da os nad eir i'r afael â hwy trwy ddulliau cynhwysol, seiliedig ar le. Mae amlddatrys yn cynnig ffordd o ddefnyddio'r fframwaith polisi presennol yn fwy effeithiol trwy gysylltu gweithredu ar yr hinsawdd â buddion go iawn sy'n bwysig yn lleol.

Er bod llenyddiaeth sylweddol yn bodoli ar y llwybrau at sero net, mae mewnwelediad ymarferol ar sut i gyflwyno amlddatrysiadau yn dal yn brin. Mae'r wybodaeth yn aml yn gyfyngedig neu'n dal i ddatblygu. Mae'r rhan fwyaf o'r strategaethau llwyddiannus sydd wedi eu dogfennu i'w gweld yn bennaf mewn cyd-destunau trefol, gan olygu bod ardaloedd gwledig heb eu

harchwilio. Mae'r adroddiad hwn yn llenwi'r bwlch hwnnw trwy dynnu sylw at enghreifftiau llwyddiannus ac yn cyflwyno argymhellion ymarferol i alluogi amlddatrysiad i gyrraedd sero net ledled Cymru wledig.

### Y Sylfaen Dystiolaeth

Cynhaliwyd adolygiad desg a 22 o gyfweliadau lled-strwythuredig gyda sefydliadau a phrosiectau sy'n ymwneud ag amlddatrys, yng Nghymru a chyd-destunau tebyg. Roedd y cyfweliadau'n archwilio sut mae cyd-fuddion yn cael eu cyflawni'n ymarferol, beth sy'n galluogi neu'n cyfyngu ar gynnydd, a sut yr ymdrinnir â thensiynau a chyfaddawdu. Daeth dadansoddiad thematig o hyd i batrymau cyffredin, elfennau ymarferol sy'n hwyluso buddion, ac enghreifftiau o arfer gorau. Y mewnwelediad hwn sy'n sail i'r canfyddiadau a'r argymhellion canlynol.

## CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

### 1. Mae amlddatrys yn sicrhau bod camau gweithredu er lles yr hinsawdd yn aros yn ystyrlon ac yn ymarferol.

Un o'r negeseuon pwysicaf a gyfyd o'r ymchwil hwn yw na ddylem osgoi camau gweithredu sero net na rhoi'r gorau iddynt yn llwyr. Hyd yn oed pan fo gwleidyddiaeth yn teimlo'n ansicr, mae amlddatrys yn helpu sefydliadau i ddal ati trwy gysylltu sero net â buddion bob dydd – fel iechyd, fforddiadwyedd, capasiti lleol a bywiogrwydd diwylliannol. Trwy arwain gyda'r buddion ychwanegol hyn gellir cryfhau dilysrwydd a chefnogaeth y cyhoedd.

### 2. Dulliau sy'n seiliedig ar le ac sy'n canolbwyntio ar bobl sy'n gweithio orau.

Mae mentrau sydd wedi'u hymgorffori mewn rhwydweithiau lleol ac yn cael eu harwain gan gynullyddion dibynadwy yn cael derbyniad cryfach a chanlyniadau mwy gwydn. Trwy flaenoriaethu prosesau cyfranogol o'r gwaelod i fyny dros ymyrraeth o'r brig i lawr, gellir angori'r prosiectau yn y blaenoriaethau lleol, osgoi cyfaddawdu diangen a gwneud gwell defnydd o'r adnoddau a rennir.

### 3. Mae cynhwysiant a hunaniaeth yn ffactorau ymarferol, yn hytrach nag ychwanegiadau.

Mae ymgysylltiad cynhwysol a diwylliannol (gan gynnwys sylw i'r Gymraeg) yn hanfodol er mwyn deall a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol a rhwystrau technolegol. Trwy gydnabod y gall rhai grwpiau wynebu heriau anghymesur wrth addasu i'r hinsawdd, gellir datblygu mentrau wedi'u targedu, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth a chyflawni canlyniadau mwy teg.

### 4. Mae amlddatrys yn cyfuno gwybodaeth leol ag arbenigedd technegol.

Mae'r canlyniadau gorau'n digwydd trwy gyd-gynhyrchu: mae rhanddeiliaid lleol yn llunio blaenoriaethau yn seiliedig ar realiti byw, tra bod arbenigwyr yn dod ag arbenigedd ar weithrediad a risgiau'r system. Daw'r elfennau ynghyd i sicrhau bod ymyriadau'n gadarn yn dechnegol ac yn ddymunol yn gymdeithasol. Mae angen sgyrsiau strwythuredig i sicrhau nad yw profiad bob dydd yn cael ei wthio i'r cyrion.

### 5. Mae newid parhaol yn gofyn bod systemau yn ogystal ag ymddygiad yn newid.

Mae newidiadau parhaus yn digwydd pan fydd seilwaith a normau bob dydd yn cael eu hailgynllunio i sicrhau mai’r dewisiadau cynaliadwy yw’r opsiynau hawsaf a mwyaf ystyrlon. Daw ymgorffori ‘meddwl trwy systemau’ mewn strwythurau llywodraethu ag arbenigedd traws-sector ynghyd i ragweld cyd-fuddion, ac adnabod cyfaddawdau posib. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn helpu i ail-lunio systemau sefydledig - fel gwastraff, ynni neu drafnidiaeth - gan alluogi buddion ehangach a dyfnach.

### 6. Amlddatrys yn gwella llywodraethu mewnol o dan gyfyngiadau allanol.

Gall amlddatrys gryfhau llywodraethu mewnol trwy helpu sefydliadau i gydlynu strategaethau ac integreiddio prosesau cynllunio, monitro ac adrodd. Mae defnyddio fframwaith amlddatrys yn fewnol yn cefnogi penderfyniadau mwy cydgysylltiedig, gan ei gwneud yn bosib i sefydliadau fynd ar drywydd

buddion tymor hir, ehangach hyd yn oed pan fydd strwythurau cyllido ac adrodd allanol yn annog gweithredu tymor byr neu ynysig.

### 7. Adeiladu partneriaethau a rhwydweithiau yn arwain at gyd-fuddion a rennir.

Nid i integreiddio mewnol yn unig y mae amlddatrys yn berthnasol, mae hefyd yn dylanwadu ar y ffordd mae sefydliadau'n cysylltu ac yn cydweithio. Mae amlddatrys yn cryfhau perthnasoedd allanol trwy gydosod blaenoriaethau a galluogi casglu adnoddau, sy'n helpu rhanddeiliaid i gydlynu eu hymdrechion a chreu synergeddau sy'n ymestyn i lefelau rhanbarthol a thu hwnt.

### 8. Mae graddfa'n bwysig: gall amlddatrys fod yn haws yn lleol, yn anoddach yn sefydliadol.

Mae sefydliadau cymunedol yn gweithio'n naturiol ar draws gwahanol feysydd, gan fod eu dull gweithredu ymarferol yn croesi i wahanol feysydd, tra caiff sefydliadau mwy eu cyfyngu gan strwythurau gweinyddol, cyllid a systemau adrodd. Gall arferion amlddatrys helpu i wneud gweithio integredig ar raddfa fwy yn haws.

### 9) Mae amlddatrys yn cynnig cyfleoedd i gynllunio datblygiad mwy cynaliadwy.

Er bod amlddatrys yn gweithio'n dda mewn lleoliadau cymunedol, dylai hefyd ddylanwadu ar gynllunio datblygiad. Mae'n darparu system ymarferol ar gyfer gweithredu ffyrdd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac o'i gyfuno â gwerthusiad o'r cyd-fuddion, yn helpu prosesau cynllunio i wrthsefyll y pwysau cul i hybu twf neu sicrhau enillion economaidd tymor byr.

## ARGYMHELLION

O'r canfyddiadau a grynhoir uchod, rydym yn cynnig nifer o argymhellion.

### Gweithredu ar yr hinsawdd trwy ddull sy'n canolbwyntio ar bobl, yn seiliedig ar le ac yn gynhwysol

**Argymhelliad 1: Peidio â rhoi'r gorau i ymrwymiadau er lles yr hinsawdd - Angori amcanion sero net mewn cyd-fuddion sydd o fudd i bobl**.

• Mapiwch y pum prif flaenoriaeth leol (e.e. biliau, mynediad at drafnidiaeth, swyddi, tai, y Gymraeg a diwylliant) a meddyliwch sut y gellir ymateb trwy weithredu er lles yr hinsawdd.

• Mewn achosion busnes a chyfathrebu cyhoeddus, arweiniwch gyda buddion y bydd pobl yn eu teimlo o fewn 6-24 mis (e.e. cartrefi cynhesach, costau rhedeg is, llwybrau mwy diogel, llwybrau sgiliau lleol), gyda'r gostyngiad mewn allyriadau yn fantais ychwanegol, yn hytrach na'r prif ysgogiad.

• Crëwch 'gerdyn sgorio amlddatrys' syml ar gyfer pob prosiect (costau byw, iechyd, natur, diwylliant, swyddi) a'i ddefnyddio wrth gymeradwyo a gwerthuso.

**Argymhelliad 2: Rhoi blaenoriaeth i gynhwysiant a hunaniaeth trwy bartneriaeth gymunedol integredig.**

• Cynlluniwch y gyllideb ar gyfer ymgysylltiad yn seiliedig ar ddiwylliant ymarferol o'r cychwyn cyntaf, gan flaenoriaethu'r Gymraeg lle bo hynny'n briodol er mwyn cydnabod ei harwyddocâd o ran llunio hunaniaeth a chydlyniant cymunedol. Defnyddiwch gynullyddion lleol dibynadwy; osgowch ymgynghoriadau unigol, byr.

• Gweithiwch ar greu perthnasoedd gyda chymunedau: cynhaliwch weithdai sy'n dod â phrofiadau bywyd, rhwystrau a chyfleoedd i'r wyneb. Talwch i bobl am eu hamser lle bo hynny'n briodol a sicrhewch ddolenni adborth.

• Gofynnwch i gyllidwyr ddarparu adnoddau ar gyfer hwyluso a meithrin perthnasau fel elfennau craidd yn hytrach na gorbenion.

**Argymhelliad 3: Cysoni gwahanol fathau o wybodaeth er mwyn gwella arferion amlddatrys.**

• Triniwch brofiad byw fel arbenigedd. Gwnewch yn ofynnol i bapurau penderfyniad gynnwys tystiolaeth brofiadol yn ogystal â dadansoddiad technegol.

• Crëwch fforymau syml, rheolaidd lle caiff cymunedau ac arbenigwyr lunio blaenoriaethau ar y cyd a chynllunio gyda'i gilydd.

• Dangoswch yn glir sut mae mewnwelediad cymunedol wedi llunio penderfyniadau trwy addasu cynllun prosiect yn unol â phrofiad bywyd, gan gadw'r dolenni adborth yn agored a pharhaus.

**Argymhelliad 4: Rhagweld a lliniaru cyfaddawdau gwledig.**

• Defnyddiwch offer senario cyfranogol i archwilio'r tensiynau (e.e. defnydd tir, capasiti'r grid, cwmpas y gwasanaeth yn erbyn y gost). Sicrhewch bod y cyfaddawdau'n glir a chytunwch ar ddulliau lliniaru.

• Crëwch banel cymunedol sefydlog (gan gynnwys aelodau o grwpiau na chlywir ganddynt yn aml) i brofi cynigion yn gynnar a chadw golwg ar yr effeithiau anfwriadol.

• Lle na ellir osgoi niwed, cynigiwch fesurau digolledu (e.e. cymorth ôl-osod wedi'i dargedu, pecynnau gwella cynefinoedd).

## Capasiti sefydliadol a sgiliau amlddatrys

**Argymhelliad 5: Datblygu galluoedd yn hytrach na dim ond prosiectau.**

• Buddsoddwch mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn 'meddwl trwy systemau', gosod gwybodaeth ac arbenigedd thematig, er mwyn cefnogi ymatebion mwy integredig i heriau cymhleth ac i leihau'r ddibyniaeth ar ymyriadau ynysig neu adweithiol.

• Ymgorfforwch sgiliau hwyluso a pherthynol fel cymwyseddau craidd y staff, gyda chefnogaeth hyfforddiant parhaus mewn dulliau cyfranogol, er mwyn cefnogi cydweithio parhaus â chymunedau, partneriaid a rhanddeiliaid strategol dros y tymor hir.

• Dylai sefydliadau strategol ystyried sut y gallant gefnogi meithrin gallu staff drwy raglenni cymorth a chyllid.

**Argymhelliad 6: Crëwch, ariannwch a gosodwch fandadau ar drefniadau galluogi strwythurol ar gyfer cydweithio.**

• Ariannwch swyddi integreiddwyr (e.e. arweinwyr partneriaeth, broceriaid cymunedol) i weithredu fel 'uwch-gysylltwyr' gyda mandadau clir, amser wedi'i warchod ac awdurdod i gynnull ar draws adrannau a sefydliadau.

• Crëwch le ar gyfer cydweithio, yn ymarferol er enghraifft trwy ganolfannau cymunedol ac yn gysyniadol trwy roi'r amser angenrheidiol i feithrin ymddiriedaeth.

• Buddsoddwch mewn rhwydweithiau a chydosod systemau fel ffordd o fynd i'r afael â'r bylchau mewn capasiti, o gronni adnoddau a rhannu gwybodaeth dros gyfnod parhaus o amser.

## Diwygio system a chyllido ar gyfer newid integredig tymor hir

**Argymhelliad 7: Canolbwyntiwch ar newid systemau i ddatgloi arferion bob dydd cynaliadwy.**

• Adnabyddwch y systemau sydd wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn eich ardal megis gwastraff, ynni neu drafnidiaeth a gweithiwch gyda chymunedau a phartneriaid i gyd-ddylunio a threialu systemau newydd sy'n gydnaws â newid ymddygiad.

• Symudwch ymlaen o brosiectau peilot tymor byr, unigol i becynnau integredig sy'n darparu amryfal fuddion i ysgogi newid systemig.

• Cydweithiwch â chymunedau i ailgynllunio gwasanaethau fel mai'r dewis carbon isel yw'r un sy'n cael ei gynnig yn awtomatig e.e. trwsio/ailddefnyddio cyn dim arall, teithio llesol yn fwriadol fel mai arferion cynaliadwy, fforddiadwy a gwydn yw'r opsiynau hawsaf a'r opsiynau sy'n gwneud synnwyr.

**Argymhelliad 8: Ymateb i gyfyngiadau ariannol trwy waith strategol ac integredig.**

• Mewnosodwch ffordd o feddwl integredig, sy'n canolbwyntio ar gyd-fuddion o fewn y drefn lywodraethu fewnol, gan sicrhau bod y prosiectau unigol yn cyfrannu'n gydlynol at y genhadaeth ehangach.

• Adeiladwch yn strategol ar y profiad a enillir o'r dulliau llwyddiannus blaenorol.

• Chwiliwch am gyllid refeniw hyblyg amlflwyddyn; os nad yw hyn yn bosib, cadwch strategaeth dreigl fel bod grantiau tymor byr yn cyfateb i newid tymor hir/ gweledigaeth ryng-gysylltiedig ehangach.

• Dylai'r cyllidwyr asesu cydlyniad prosiectau mewn perthynas â gweledigaeth ehangach y sefydliad a defnyddio adroddiadau cymesur, yn enwedig ar gyfer partneriaid bach.

**Argymhelliad 9: Ail-fframio twf trwy amlddatrys wrth gynllunio datblygiad.**

• Sicrhewch bod gwerthuso'r cyd-fuddion yn rhan o brosesau cynllunio sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion ddangos buddion amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd gyda'i gilydd.

• Profwch, monitrwch ac adroddwch yn rheolaidd ar benderfyniadau dylunio ymyrraeth o ddydd i ddydd yn erbyn Ffyrdd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan eu trosi o egwyddorion lefel uchel i awgrymiadau ymarferol a phrofion ar gyfer timau cyflwyno.

• Symudwch ymlaen o ddangosyddion twf cul sy'n cael eu hysgogi gan allbwn tuag at fesurau sy'n adlewyrchu'n well yr hyn sy'n bwysig i gymunedau - megis cyflogaeth leol o safon, effeithlonrwydd adnoddau, gwytnwch diwylliannol, ac adfer natur - fel bod cynllunio datblygiad yn cefnogi newid systemau yn hytrach na sicrhau enillion economaidd tymor byr.


CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES
Cymru Wledig LPIP Rural Wales
The Rural Wales Local Policy and Innovation Partnership
AMLDDATRYS AR GYFER SERO NET-ARGYMHELLION
BILINGUAL
DWYIEITHOG
SERO NET
PEIDIO Â RHOI'R GORAU IDDI
GWERTHFAWROGI MEWNBWN GAN Y GYMUNED
CYLLID
TREFTADAETH
CYFLOGAETH
LLESIANT
DIWYLLIANT
COSTAU BYW
GWEITHREDU AR NEWID HINSAWDD SY'N CANOLBWYNTIO AR Y BOBL, YN SEILIEDIG AR LEOEDD AC YN GYNHWYSOL
CAPASITI'R GRID
CERDYN SGORIO
ARBENIGWYR LLEOL
CANOLFAN GYMUNEDOL
YSTAFELL 3
HYFFORDDIANT SGILIAU
HEDDIW
CYFARFOD MISOL
GALLU A SGILIAU SEFYDLIADOL AR GYFER AMLDDATRYS
LLWYBRAU CYFLAWNI LLEOL
NODAU CLIR
BUDDION INTEGREDIG
ARBENIGWYR LLEOL
AFALAU CYMREIG
SUDD OREN
AMLDDATRYS
NEWID SYSTEMAU
CASGLU GWASTRAFF
CYSYLLTIAD GRID
ARFERION BOB DYDD CYNALIADWY
RHEOLAU
DIWYGIO SYSTEM A CHYLLIDO TYMOR HIR
TWF A LLWYDDIANT
CADW GOLWG AR GYD-FUDDION
CYLLIDWYR YN ASESU CYDLYNIAD
NEWID TYMOR HIR
LLYWODRAETHU MEWNOL
DARLUN MWY
AR ALW
(This document is available in English)
Darluniwyd gan:Amanda Steer

## SUT MAE AMLDDATRYS YN EDRYCH?

Mae **Tabl 1** isod yn cyflwyno enghreifftiau astudiaeth achos o arferion amlddatrys, lle mae camau ar gyfer cyrraedd sero net yn galluogi cyd-fuddion amgylcheddol, economaidd a diwylliannol ar draws ystod o sectorau. Mae rhai o'r rhain i'w gweld ar dudalen 1.

| **Math o brosiect** | **Disgrifiad o'r prosiect** | **Cyd-fuddion nodweddiadol** | **Prosiectau enghreifftiol** |
|---|---|---|---|
| **Trafnidiaeth gymunedol** | Trafnidiaeth hyblyg y gellir ei harchebu ymlaen llaw a redir yn y gymuned ar gyfer trigolion gwledig heb wasanaeth digonol – hybu cynhwysiant, lleihau'r defnydd o geir ac allyriadau, a chefnogi cydlyniant cymunedol cymdeithasol a diwylliannol ar yr un pryd. | £ | O Ddrws i Ddrws<br>Gwasanaeth bws mini a lifft cymunedol Partneriaeth Ogwen<br>Trafnidiaeth gymunedol Yr Orsaf<br>Clybiau cerbydau trydan cymunedol TrydaNi<br>Hooky Car Club Low Carbon (Swydd Rhydychen) |
| **Trafnidiaeth weithredol** | Galluogi teithio llesol bob dydd (cerdded, beicio) trwy logi/trwsio beiciau, seilwaith gwyrdd, gwell mynediad, a chefnogaeth gan gymheiriaid, hyrwyddo iechyd, lleihau'r defnydd o geir ac allyriadau, a gwella ansawdd yr aer, lles a chydlyniant cymunedol. | £ | Partneriaeth Ogwen (Beics Ogwen)<br>Forth Valley Climate Action<br>HubHwb Beics Pen Llŷn<br>Eco Hwb Aber<br>Hope Valley Climate Action's Travelling Light (Peak District) |
| **Gwobrau addysg / ysgolion** | Rhaglenni amgylcheddol mewn ysgolion sy'n gwneud gweithredu er lles yr hinsawdd yn ymarferol ac yn seiliedig ar le, yn hyrwyddo lleihau ynni, trafnidiaeth gynaliadwy, a lleihau gwastraff. | | Gwyrddni<br>Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent<br>Eco-Sgolion (Cadwch Gymru'n Daclus)<br>The Darwin Experience<br>Cwricwlwm Llywodraeth Cymru |
| **Ôl-osod tai** | Uwchraddio cartrefi presennol (e.e., inswleiddio, gwell awyru, gwresogi carbon isel) i wella effeithlonrwydd ynni; lleihau allyriadau, gostwng biliau, a gwella lles. | £ | Llyfr patrwm Tai ar y Cyd ar gyfer cartrefi carbon isel<br>Hwb datgarboneiddio Tŷ Gwyrddfai yn cefnogi sgiliau ôl-osod |
| **Ynni (mesurau arbed / darpariaeth gymunedol)** | Prosiectau sy'n lleihau'r galw am ynni ac yn darparu ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol (h.y. cynhyrchu cymunedol, seilwaith a rennir), gan ostwng costau a rhoi'r gwerth yn ôl i gymunedau. Cwmpas ar gyfer addysg a hyfforddiant sgiliau. | £ | Morlais (ynni llanw Ynys Môn)<br>Ynni Ogwen<br>Ynni Cymunedol Cymru<br>Datblygiadau Egni Gwledig (DEG)<br>Ynni Anafon |
| **Gwarchod bioamrywiaeth / tirwedd** | Adfer natur a chynefinoedd ar raddfa tirwedd sy'n gwella bioamrywiaeth, yn lliniaru llifogydd, ac yn darparu gwasanaethau ecosystem, yn aml yn cynhyrchu enillion economaidd o 'ymyriadau seiliedig ar natur'. | | Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd<br>Coetiroedd i Gymru<br>Lleoedd Lleol ar gyfer Natur<br>Coetir Anian<br>Partneriaeth Tirwedd y Carneddau<br>Fferm Ifan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Twristiaeth** | Twristiaeth isel ei effaith a arweinir yn lleol sy'n cysylltu safleoedd a llwybrau â dehongliadau ac arwyddion cyfeirio, gan gyfuno llwybrau â chanllawiau digidol/wedi eu hargraffu i reoli mynediad a phrofiad yr ymwelwyr, dathlu treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, a chryfhau busnesau gwledig. | | Partneriaeth Tirwedd y Carneddau<br>Twristiaeth Gymunedol Yr Orsaf EcoAmgueddfa<br>Carbon Neutral Islands (Yr Alban)<br>North West Highlands Geopark (Yr Alban) |
| **Darpariaeth iechyd /gofal cymdeithasol** | Mentrau iechyd/gofal cymdeithasol ataliol a chefnogol yn y gymuned, sy'n gwella mynediad, yn lleihau pwysau ar wasanaethau clinigol, ac yn cryfhau lles. | | Rhagnodi Cymdeithasol (Iechyd Cyhoeddus Cymru)<br>Asthma + Lung UK (Cymru) |
| **Asedau / prosiectau cymunedol** | Asedau dan arweiniad y gymuned (gofodau, hybiau ac adnoddau a rennir) sy'n adeiladu gwytnwch, yn cadw gwerth yn lleol, ac yn gwella mynediad, trwy weithgareddau ymarferol fel rhannu offer/cyfarpar, cynlluniau trwsio ac ailddefnyddio, a gweithdai trwsio/creu cymunedol. | £ ♻ | Benthyg Cymru (Llyfrgelloedd Pethau)<br>Partneriaeth Ogwen<br>Warp It (llwyfan ailddefnyddio Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda)<br>Caffi Trwsio Cymru<br>North Wales Nappy Collective |
| **Sgiliau a chyflogaeth** | Hyfforddiant, prentisiaethau a datblygu'r gweithlu i ddatblygu capasiti lleol ar gyfer darpariaeth sero net (e.e. ôl-osod, ynni adnewyddadwy, rheoli tir, cynhyrchu bwyd, rheoli busnes). | £ | Tŷ Gwyrddfai<br>Yr Orsaf 'Canolfan Fenter Pobl Ifanc'<br>Prosiect Fferm Sero Net Llysfasi, Coleg Cambria<br>Canolfan Tywi |
| **Buddsoddiad / economi wledig** | Cyllid, cymorth menter a rhaglenni buddsoddi rhanbarthol sy'n cataleiddio twf ac arloesedd sy'n gyson â datgarboneiddio mewn rhanbarthau gwledig. | | Bargen Twf y Gogledd (Uchelgais Gogledd Cymru)<br>Banc Datblygu Cymru<br>Clwstwr Diwydiannol De Cymru<br>Clwstwr Datgarboneiddio Diwydiannol Gogledd-ddwyrain Cymru (NEWID) |
| **Gwydnwch diwylliannol** | Prosiectau sy'n diogelu treftadaeth ddiwylliannol, cynnal iaith a hunaniaeth yn seiliedig ar leoedd, ac yn cryfhau cydlyniant cymunedol. | | Treftadaeth ddiwylliannol ac enwau lleoedd Partneriaeth Tirwedd y Carneddau<br>Gwyrddni<br>Yr Orsaf (gweithgareddau cymunedol)EcoAmgueddfa |
| **Lleihau gwastraff/ ailgylchu** | Mentrau sy'n atal gwastraff ac yn cynyddu ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu trwy ddulliau'r economi gylchol. | £ ♻ | Benthyg Cymru<br>Caffis Atgyweirio Gwyrddni<br>Warp It (BIP Hywel Dda) |
| **Diogelwch bwyd** | Creu partneriaethau bwyd, cefnogi cynhyrchwyr, byrhau'r cadwyni cyflenwi a/neu gynyddu mynediad at fwyd fforddiadwy, maethlon. | £ ♻ | FareShare Cymru<br>Llysiau o Gymru ar gyfer Ysgolion<br>Bwyd Powys Food: Partneriaethau Bwyd Food for the Planet |

**Eglurhad**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 💼 | Cryfhau ac arallgyfeirio'r economi wledig | 🤝 | Cefnogi cydlyniad cymdeithasol |
| 🌿 | Gwella iechyd ecosystemau / amddiffyn tirwedd (gan gynnwys bioamrywiaeth, lliniaru llifogydd) | 🏘️ | Cynyddu buddsoddiad mewn prosiectau ac asedau cymunedol gwledig |
| £ | Lleihau costau byw (bwyd, tanwydd, teithio) | 🎓 | Cefnogi cyrhaeddiad addysgol |
| 🚌 | Gwella argaeledd darpariaeth gwasanaethau gwledig | 🥦 | Cryfhau diogelwch bwyd gwledig |
| ❤️ | Gwella iechyd cyhoeddus gwledig | 🛠️ | Cynyddu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth fedrus mewn ardaloedd gwledig |
| ♻️ | Lleihau gwastraff / gwella ailgylchu | 🏛️ | Diogelu treftadaeth ddiwylliannol a sicrhau gwytnwch diwylliannol |

## GWYBODAETH AM Y PROSIECT

**Ymchwilwyr** Sophie Wynne-Jones, (Prifysgol Bangor), Elen Bonner, (Prifysgol Bangor), Seán Martin (Prifysgol Bangor), Siobhán Maderson, (Prifysgol Aberystwyth).

**Darllen Pellach** Gellir lawrlwytho adroddiad llawn y prosiect o www.lpip.cymru

**I gael mwy o wybodaeth** **Cysylltwch â:** Sophie Wynne-Jones / s.wynne-jones@bangor.ac.uk

Cynhaliwyd yr ymchwil a adroddir yn y Briff Polisi hwn fel rhan o Cymru Wledig LPIP Rural Wales, Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol Cymru Wledig, a ariennir gan UKRI, corff cyllido ymchwil Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nod Cymru Wledig yw cryfhau'r sylfaen dystiolaeth a ddefnyddir i lunio a darparu polisïau effeithiol ar gyfer Cymru Wledig, archwilio a phrofi atebion arloesol i heriau polisi, a grymuso cymunedau i ddefnyddio ymchwil i fynd i'r afael â phryderon lleol, gan weithio tuag at y nod o sicrhau economi llesiant cynhwysol a chynaliadwy yng Nghymru Wledig. Cydlynir Cymru Wledig LPIP Rural Wales gan Brifysgol Aberystwyth, gyda phartneriaid Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, sefydliad The Countryside and Community Research Institute ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, Canolfan y Dechnoleg Amgen, Gyda'n Gilydd dros Newid, Antur Cymru, Datblygiadau Egni Gwledig (DEG), Represent Us Rural, Iechyd a Gofal Gwledig Cymru, a Sgema. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn www.lpip.cymru, neu trwy gysylltu â lpip@aber.ac.uk.

UK Research and Innovation

---

[i] Llywodraeth Cymru. 2019. Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn argyfwng ar yr hinsawdd. https://www.llyw.cymru/llywodraeth-cymrun-datgan-ei-bod-yn-argyfwng-ar-yr-hinsawdd

[ii] Pwyllgor Newid Hinsawdd. (2025) Pedwerydd Cyllideb Garbon Cymru: Cyngor i Lywodraeth Cymru. https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2025/05/Wales-Fourth-Carbon-Budget-advice.pdf

[iii] Llywodraeth Cymru. 2021. Rhaglen lywodraethu – diweddariad. https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-01/rhaglen-lywodraethu-diweddariad-rhagfyr-2021.pdf

[iv] Archwilio Cymru. (2025) Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.https://www.audit.wales/cy/publication/dim-amser-iw-golli-gwersi-gwaith-dan-ddeddf-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol